



Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant – Gwybodaeth i Rien

Diben y daflen hon yw eich helpu i ddeall pam y mae Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant yn angenrheidiol, ynghyd â'r hyn a fydd yn digwydd.

Pam y mae Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant yn angenrheidiol?

Nid yw bob amser yn eglur sut y mae clais, archoll, llosg, asgwrn wedi torri, anaf neu farc ar y croen wedi digwydd i blentyn. Weithiau mae yna resymau dros wirio bod holl anghenion y plentyn yn cael eu diwallu'n iawn. Pan fydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi, mae'n bwysig bod asesiad, archwiliad ac ymchwiliadau trylwyr yn cael eu cynnal i ddarganfod rhagor. Mae'r Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant yn rhan o'r asesiad hwn. Efallai y bydd yn rhaid i ni feddwl am blant eraill ar yr aelwyd hefyd.

Nod yr Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant yw gwneud y canlynol:

- nodi unrhyw anafiadau neu broblemau meddygol y mae'n ofynnol eu trin
- eithrio unrhyw achos meddygol dros yr anafiadau
- ystyried anghenion, amgylchedd a cham datblygu eich plentyn.

Pwy a fydd yn rhan o'r archwiliad?

Bydd eich plentyn yn cael apwyntiad gyda meddyg plant hŷn (pediatregydd). Bydd gweithwyr proffesiynol eraill, megis gweithiwr cymdeithasol plant a swyddog heddlu, yn gweithio gyda'r pediatregydd pan fo angen.

A ofynnir i mi am gydsyniad?

Ni fyddwn yn archwilio eich plentyn heb gydsyniad ar sail gwybodaeth gennych. Fodd bynnag, os dewiswch beidio â chydsynio i archwiliad y mae'r meddyg yn credu sy'n angenrheidiol, yna cynhelir trafodaeth bellach â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.

Beth a fydd yn digwydd?

Bydd y meddyg yn eich holi chi a'ch plentyn am y digwyddiadau a arweiniodd at yr angen am yr archwiliad. Mae'n arferol cynnig cyfle i blant hŷn siarad â'r meddyg ar eu pen eu hunain. Bydd y meddyg yn cymryd hanes meddygol llawn, a fydd yn cynnwys cwestiynau am elfennau megis datblygiad eich plentyn, ei iechyd cyffredinol, ei amgylchiadau cymdeithasol a hanes meddygol y teulu.

Bydd eich plentyn yn cael archwiliad meddygol llawn (o'r corun i'r sawdl). Os bydd gan eich plentyn unrhyw anafiadau, marciau neu gleisiau, bydd y rhain yn cael eu nodi a'u mesur, a thynnir llun ohonynt yng nghofnod iechyd eich plentyn. Mae'n bosibl y bydd ffotograffau a recordiadau fideo yn cael eu cymryd, o gael cydsyniad ar sail gwybodaeth gennych, a chânt eu cadw'n ddiogel, yn rhan o gofnod iechyd eich plentyn.

Efallai y bydd rhai profion yn ofynnol, e.e. profion gwaed, profion llygaid a phelydrau-X, a allai gynnwys mynediad i ward y plant. Byddwch yn cael rhagor o wybodaeth am y profion hyn os bydd eu hangen.

Beth a fydd yn digwydd ar ôl yr Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant?

Pan fydd canlyniadau'r holl brofion cychwynnol ar gael (gall hyn gymryd ychydig ddyddiau), bydd y meddyg yn ysgrifennu adroddiad i'w rannu â phobl eraill, gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, yr heddlu a meddyg teulu eich plentyn. Bydd canlyniadau'r holl brofion yn cael eu rhannu â chi.

Beth os derbynnir fy mhlentyn i'r ysbyty?

Os derbynnir plentyn i ward y plant, rydym yn annog rhieni/gofalwyr i aros yn yr ysbyty gyda'u plentyn. Efallai y bydd yna adegau pan na fydd hyn yn bosibl, ac, os felly, bydd yn rhaid gwneud trefniadau eraill. Ar ôl i'r holl brofion angenrheidiol gael eu gwneud, cynhelir trafodaeth fanwl, a fydd yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, yr heddlu a'r meddyg.

Pan fydd eich plentyn yn barod i gael ei ryddhau o'r ysbyty, bydd cynllun, a fydd yn cynnwys unrhyw apwyntiadau meddygol dilynol angenrheidiol neu brofion pellach, yn cael eu trafod â chi.

Unrhyw gwestiynau?

Ar ôl darllen y daflen hon, gofynnwch i'r meddyg a fydd yn archwilio eich plentyn am unrhyw elfen nad ydych yn ei deall.

Lefel Gradd Flesch Kincaid 8.6

Rhwyddineb Darllen Flesch 61.3